# WRTH FEDD NELI,

*Ddydd Pen Blwydd ei Marw (Medi y 9fed, 1911).*

---

Is y Groes* a garai hi,
Yma, un ŵyl, huna'm Neli.

Mawr yw f'ingoedd marw f'angel :
Pêr a hoff oedd,—pur, a ffél,
Gostyngedig, diddig, da,
Y ddewr fun hardd, a'r fwyna'.
Oedd ddedwydd Gymraes ddidwyll,
A gadwai'i phen gyda'i phwyll ;
Diffynnai,— siaradai'r iaith
Er hy drais pob rhodresiaith,
A sêl loew'i hoes lawen
Yn gainc aur ieuainc a hen.

Ddi-wth ei ffordd, waith a ffydd ;
Distaw gryf dyst i grefydd,
A phêr sawr y swil lili
Yn hoen nefol o'i hol hi ;
Ei " rhan " oedd " dda," rïain ddiwair :
Gelyn y gau, galon a gair ;
Ac aeres hedd—cares sant ;
Llawdde, a'i chelf yn llwyddiant ;
Diddan wrth bentan y bu,
A'i thalent lonnai 'i theulu ;
Rhag diniwait enaid hon
'E giliai drwg o'r galon.

* Croes Geltig.

Un wisgi, wén, gain osgo,
O addwyn fryd ddenai fro :
O law Dduw yn syml hi ddaeth,
A'i heirdd wenau'n farddoniaeth ;
Uwch ei hael, nef iach o hyd
Loewai oedfa hil adfyd ;
Diymwybod ei hymaberth,
A'i llaw a wnae â'i holl nerth,
A'i bywyd, mal byw awen,
D'rawai gord ei rhywiog wên.

Duwies swyn,—seml Enid serch,—
Fy Ngwynfa oedd fy ngwenferch,
A'i gwên fy haul gwynnaf o hyd,
A Haf mwyaf fy mywyd.

Ond ow'r golled ! a'i hargyllaeth !—
Ebrwydd fy Haf yn Aeaf wnaeth—
Gaeaf ing !—gwywai f'angel !
Boddaf yn nos bedd fy Nel.
A hi yn hoew'i hegnïon,
Wylaf weled tynghed hon :
O Gil Hedd hi i gôl Ing
A darfodd Angeu durfing.

Erchyll air !—" ei cholli hi "!—
Dager Siom ! Deigr sy imi !
Mwy, alaw Siom eilia Serch
Dan wyw lwyn dain ei lannerch :
Uwch annwyl lwch Nel, ei hedd
Yn weddw ddaw i'w ddiwedd.
Tewaist, Nel, is y tywod ;
Ag yn dy fedd gwae in' dy fod !

IFANO.